

Dwi 'di blino – Glesni Williams

Dwi 'di blino. Dwi jysd wedi cael digon a wedi blino. Mae pob dim yn ymdrech. Mae pob dim yn anodd. Dwi'n teimlo'n bell oddi wrth pawb a phopeth. Dwi'm isio deffro. Ond pan dwi yn deffro dwi ddim isio codi. Mae amser yn pasio heibio heb i mi sylwi. Dwi'm 'di gwneud dim byd ond mae oriau yn teimlo fel eiliadau. Ond ar adegau eraill mae eiliadau yn teimlo fel oriau.



Dwi'n ymddangos yn weithredol dwi'n siwr. Dwi'n mynd i nôl plant fy ffrind o'r ysgol, sef yr unig beth sy'n fy nghadw i fynd ar ddyddiau tywyll – fy rheswm i adael y ty, fy rheswm i gario 'mlaen.

Dwi'n mynd am dro weithiau. Ar rai adegau dwi'n mynd i'r siop ac yn siarad efo ambell i berson. Pethau arferol dydd i ddydd. **Ond be dydi pobl ddim yn ei weld ydi faint o ymdrech mae wedi ei gymryd i mi baratoi fy hun i fynd allan o'r tŷ yn y lle cyntaf.** Paratoi fy hun i wneud y pethau arferol hynny. A pha mor flinedig a di-egni dwi'n teimlo wedyn.

Fedra i ganolbwyntio ar bethau am gyfnod. Ond mae'r ymdrech mae'n gymryd i ganolbwyntio am y cyfnod yna yn sylweddol. Dwi'n teimlo'n ddi-amynedd, yna'n flin efo fi'n hun am fod yn ddi-amynedd. Wedyn dwi'n crio.

Dwi'n ymddangos yn iawn ar y tu allan. Felly pam 'mod i'n

medru gwneud rhai pethau ond methu gwneud pethau eraill?

Esgus bod yn iawn ydw i. **Mae'n cymryd gymaint o ymdrech ac egni i esgus 'mod i'n iawn, dwi'n twyllo fy hun weithiau.** Wedyn mae'r realiti yn fy nharo. Mae'r cyrtans tywyll yn cau, mae'r euogrwydd a'r cywilydd yn disgyn a dwi'n sylweddoli 'mod i ddim yn iawn.

Dwi 'di blino. Wedi blino oherwydd blinder neu wedi blino oherwydd y ffordd dwi'n teimlo? Dwnim. Sgenai'm yr egni i feddwl amdano. Dwi jysd yn gwybod mod i wedi blino.

-
- [BLOG: Caethineb Iselder – Glesni Williams](#)